



Annwyl Syr/Fadam

## AROLWG O FRIDIAU DEFAID PRYDEINIG 2020

Rhwng 1971 a 2012, fe wnaeth y Comisiwn Cig a Da Byw (MLC) ac yna Weithrediaeth Cig Eidion a Chig Oen Lloegr (EBLEX) a Hybu Cig Cymru (HCC), gyda chymorth Gwlân Prydain/British Wool ac ar y cyd â MAFF ac yna DEFRA gynnal arolygon ysbeidiol o gynhyrchwyr defaid ym Mhrydain<sup>1</sup>. Roedd yr arolygon yn cofnodi nifer y defaid ym mhob brîd, eu dosbarthiad a'u strwythur paru.

Fe wnaeth yr adroddiad ar arolwg 2012<sup>1</sup>, sydd ar gael yn <https://www.signetdata.com/technical/publications/>, gofnodi bridiau newydd na chawsant eu cofnodi yn yr arolygon blaenorol a soniodd am ddylanwad newidiol mamogiaid croesfrid a chynnydd rhai bridiau iseldir a bridiau i'w lladd. Mae strwythur bridio diwydiant defaid y DU yn parhau i newid wrth i ni fodloni gofynion cyfnewidiol y diwydiant.

**Mae arolwg 2020 wedi'i amgáu – rydym yn awyddus i gymharu canlyniadau 2012 â gwybodaeth o arolwg newydd o'r sector defaid i ymchwilio i effeithiau'r wyth mlynedd diwethaf. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddychwelyd yr arolwg wedi'i gwblhau atom erbyn 11 Ionawr 2021 gan ddefnyddio'r amlen ragdaledig a ddarparwyd.**

Bydd y gwaith ymchwil hwn hefyd yn helpu Gwlân Prydain i ddeall sut mae'r preiddiau bridio yn y DU yn newid dros amser. Mae pob brîd defaid yn cynhyrchu gwlân o wahanol arddull a thrwy ddeall y newidiadau gallwn gadw ein system raddio'n berthnasol fel ein bod yn y sefyllfa orau i ychwanegu gwerth at wllân cynhyrchwyr dros y tymor canolig i'r tymor hir.

Bydd canlyniadau'r astudiaeth ar gael i'r cyhoedd. Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), HCC a Quality Meat Scotland (QMS) wedi darparu'r cyllid, bydd Signet/AHDB yn goruchwyllo'r gwaith o gasglu data a'i gofnodi, a Dr Geoff Pollott o'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol fydd yn cwblhau'r gwaith dadansoddi.

Yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a chanllawiau'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad, dim ond at y dibenion ymchwil a amlinellir uchod y bydd yr wybodaeth a ddarperir i ni yn cael ei defnyddio. Bydd yr holl wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Bydd yr holl ddata'n cael ei brosesu dan fesurau diogelwch priodol ac ni fydd eich manylion adnabod personol yn cael eu datgelu mewn unrhyw gyhoeddiadau dilynol. Ni fydd cyfeiriadau ffôn ac e-bost a ddarperir at ddibenion dilysu ymateb yn cael eu cadw am fwy na dwy flynedd, ni fydd gwybodaeth am godau post yn cael ei chadw am fwy na phum mlynedd. Nid oes rheidrwydd arnoch i ddarparu'r wybodaeth hon, ond byddem yn gwerthfawrogi eich cyfraniad i helpu'r diwydiant i gael gwell dealltwriaeth o'i ddatblygiad.

I gael gwybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol, cymerwch gip ar ein hysbysiad polisi preifatrwydd, sydd ar ein gwefannau: [www.britishwool.org.uk](http://www.britishwool.org.uk) a [www.ahdb.org.uk/Privacy-Notice](http://www.ahdb.org.uk/Privacy-Notice).

Efallai yr hoffech ddilyn hynt yr arolwg ar wefan Signet yn <https://www.signetdata.com/technical/projects/sheep-breed-survey/>

Diolch yn fawr

Yn gywir

Emma Steele  
Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth Cig Oen a Chig Eidion, AHDB

Laura Johnson  
Gwlân Prydain/British Wool

AHDB, Signet, Stoneleigh Park, Kenilworth, Warwickshire, CV8 2TL  
Tel: 02476 478829 Email: [signet@ahdb.org.uk](mailto:signet@ahdb.org.uk)

<sup>1</sup>The breeding structure of the British Sheep Industry 2012, Dr. Geoff Pollott <https://www.signetdata.com/media/1823/breed-survey-2012.pdf>

Os nad ydych yn cadw defaid mwyach, ticiwch y blwch a dychwelyd y ffurflen gyfan  
Os oes gennych ddiadell o ddefaid ond nad ydych am lenwi'r ffurflen hon, ticiwch y blwch a dychwelyd y ffurflen gyfan



Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch llenwi'r ffurflen, e-bostiwch emma.steele@ahdb.org.uk neu ffoniwch 07392 319813  
Dychwelwch yr arolwg yn yr amlen ragdaledig neu gallwch ei sganio a'i hanfon at emma.steele@ahdb.org.uk erbyn 11 Ionawr 2021.

**I lenwi'r ffurflen hon**

**Sir**

Ym mha sir y mae eich fferm – nodwch yma.

**Cod post**

Nodwch eich cod post yma. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn ein helpu i fapio ymatebion yr arolwg i leoliad cywir.

**Mamogiaid yn cael eu rhoi i'r hwrdd, Hyrddod a ddefnyddir i baru â'r mamogiaid a chwestiwn am yr Ardal Llai Ffatriol**

(a) Defnyddiwch linell ar wahân ar gyfer pob brid neu famog groes a llenwi'r wybodaeth ym mhob colofn gan gynnwys "Yr hyrddod a ddefnyddir i baru gyda'r mamogiaid" a "Nifer o famogiaid ar dir ALIFF?" ALIFF – ardal llai ffatriol.

(b) Gyda mamogiaid croesfrid/hwrdd, rhowch un ai enw cyffredin, os yw'n groes safonol adnabyddus neu ddangos brid yr hwrdd neu fam y famog/hwrdd (e.e Suffolk x Mynydd Cymreig) gan nodi brid yr hwrdd yn gyntaf.

(c) Nodwch enw llawn y brid bob amser, e.e. North Country Cheviot.

(d) Pe bai mamogiaid o un dosbarth oedran neu frîd yn cael eu rhoi i hyrddod o fwy nag un brîd, nodwch hynny trwy roi nifer y mamogiaid sy'n cael eu paru â'r brîd hwrdd gwahanol ar wahân, fel y dangosir yn yr enghraifft isod

**Crynodeb o'r hyrddod a ddefnyddir**

Defnyddiwch yr adran hon i restru'r hyrddod a ddefnyddir ar y fferm yn Hydref 2020. Hefyd dangoswch faint o'r hyrddod hyn a gafodd eu magu ar y fferm, hyrddod AI neu sydd â Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBV).

**Ŵyn benyw ar y fferm ond heb eu paru**

Nodwch y manylion yn yr un ffordd a ddisgrifir uchod ar gyfer "Crynodeb o hyrddod a ddefnyddiwyd".

**Nifer yr ŵyn a werthwyd o gnwd ŵyn 2020 yn ôl mis gwerthu**

Defnyddiwch yr adran hon i grynhoi gwerthiant ŵyn yn ystod 2020 a anwyd i'ch mamogiaid bridio a gafodd hwrdd yn 2019. Rhowch y rhif a werthir bob mis yn ôl categori gwerthu; gorffenedig (gwerthiannau byw a phwysau marw) neu stôr.

Peidiwch â chynnwys manylion gwerthiant ŵyn stôr a brynwyd.

**Y defaid a werthwyd ar gyfer bridio yn 2020**

Nodwch nifer yr ŵyn (a anwyd yn 2020), hesbinod (a anwyd yn 2019) neu anifeiliaid hŷn, gan gynnwys ŵyn drafft, a werthwyd fel stoc bridio yn 2020.

**Cwestiwn Cymdeithas Bridio**

Nodwch a ydych yn cofrestru eich ŵyn gyda chymdeithas fridio, ac os felly, pa un. Hefyd, nodwch os ydych yn gwerthu hyrddod ond ddim yn eu cofrestru gyda chymdeithas fridiau.

**Manylion cyswllt**

Os dymunwch, gallwch nodi eich manylion cyswllt yn y blychau a ddarperir, byddai'r rhain yn ddefnyddiol os bydd gennych gwestiwn neu os bydd angen i ni wirio manylion y ffurflen.

**Cwestiynau ychwanegol (ar gefn prif ffurflen yr arolwg)**

Atebwch y cwestiynau trwy roi cylch o amgylch yr atebion mwyaf perthnasol a nodwch unrhyw sylwadau / ymholiadau neu ymhelaethu eich atebion yn y blwch a ddarperir. Os oes angen mwy o le arnoch, mae croeso i chi gynnwys dalen ychwanegol o bapur yn eich ffurflen. Cofiwch nodi at ba gwestiwn rydych yn cyfeirio.

**Manylion stoc bridio defaid – paru Hydref 2020**

**CYFRINACHOL**

Sir: Ceredigion								Cod post (pwysig): SY23 3FF							
Doebarth oed	Mamogiaid a roddir i'r hwrdd				Hyrddod a ddefnyddir i baru gyda'r mamogiaid				Crynodeb o'r hyrddod a ddefnyddiwyd						
	Enw brid neu groesfrid	Nifer o famogiaid	Ohonynt, faint a fagwyd ar y fferm	Nifer y mamogiaid ar dir ALIFF	Dyddiad hyrddod i mewn	Dyddiad hyrddod allan	Enw brid neu groesfrid	Nifer yr hyrddod	Enw brid neu groesfrid	Cyfanswm yr hyrddod	Ohonynt, faint sydd:				
											Wedi'u magu ar y fferm	Hyrddod AI	Â EBV		
Oen benyw	North Country Mule	80	0	0	07/11/20	11/12/20	Southdown	3	Southdown	3	0	0	2		
									Charollais	4	3	0	4		
									Texel	1	0	0	0		
Hesbinod	Charollais	5	4	0	30/07/20	20/09/20	Charollais	1	Suffolk	2	0	0	1		
	North Country Mule	72	0	0	20/10/20	11/12/20	Charollais	2							
Mamogiaid aeddfed	Charollais	20	15	0	30/07/20	20/09/20	Charollais	1							
	North Country Mule	248	0	0	20/10/20	11/12/20	Charollais	2							
					20/10/20	11/12/20	Texel	1							
					20/10/20	11/12/20	Suffolk	2							
Cyfanswm mamogiaid a barwyd gyda hwrdd yn 2019	Nifer yr ŵyn a werthwyd o gnwd ŵyn 2020 yn ôl mis gwerthu (Peidiwch â chynnwys ŵyn stôr a brynwyd)										Ŵyn wrth law ddiweddi Rhagfyr				
	Chws	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag				
425	Wedi'i gorffen		13	8	5	110	253	192	80			0			
	Stôr														
Rhif ffôn (dewisol): 01234567891															
Cyfeiriad e-bost (dewisol): aperson@myfarm.co.uk															
Byddwn yn defnyddio rhain i wirio'r manylion ar y ffurflen os oes angen															
Defaid a werthwyd ar gyfer bridio yn 2020				Ganwyd 2020				Ganwyd 2019				Yn hŷn (gan gynnwys ŵyn drafft)			
Brid		Rhif		Brid		Rhif		Brid		Rhif		Brid		Rhif	
Charollais		3		Charollais		2									
Charollais		4						NC Mule		34					
Ydych chi wedi cofrestru gyda Chymdeithas Ffridiau? <input checked="" type="checkbox"/> Do <input type="checkbox"/> Naddo															
Pa fridiau ydych chi'n cofrestru? Charollais															
Rwy'n gwerthu hyrddod – ond nid ydynt wedi'u cofrestru gyda Chymdeithas Ffridiau: <input type="checkbox"/>															